


Castell Conwy



Ail-gread o ryngdyllau yn y rhagfur gorllewinol, yn dangos sut y cawsant eu defnyddio o bosibl yn ystod ymosodiad neu warchae ar y porth sy'n arwain at y ward allanol.

Mae Castell Conwy yn un o'r cylch o gestyll a adeiladwyd gan Edward I er mwyn rheoli gogledd Cymru ar ôl trechu tywysogion Cymru. Ar yr un pryd, sefydlwyd tref gaerog ar gyfer gwladychwyr o Loegr. Mae'r muriau a'r castell yn gyflawn iawn, ac ynghyd â Chastell a mur tref Caernarfon, Castell Harlech a Chastell Biwmares, ychwanegwyd hwy at Restr Treftadaeth y Byd o safleoedd o werth eithriadol ym 1987.

Hanes

Mae Castell Conwy, a adeiladwyd ar frigiad creigiog, yn rheoli croesiad afon Conwy, ar ffin ddwyreiniol Gwynedd. Bu Edward I ei hun yn cadw golwg ar y gwaith o gynllunio'r castell a'r dref yn gynnar ym 1283, a goruchwyliwyd y gwaith gan Meistr James o St George, un o benseiri milwrol gorau ei gyfnod. Yn ystod haf 1285 cyflogwyd 1,500 o weithwyr, ac ymhen dwy flynedd roedd llawer o'r gwaith wedi'i gwblhau. Mewn safle mor agored, dechreuodd yr adeilad ddadfeilio'n fuan. Ym 1332 dywedir nad oedd yn addas i'r brenin aros yno. Ym 1346 ail-dowyd yr adeiladau gyda phlwm. Yn ardal y neuadd fawr, gosodwyd bwâu o garreg, a oedd yn ddigon cryf i ddal to plwm, yn lle'r trawstiau pren oedd yno gynt. Cipiwyd y castell gan ddilynwyr Owain Glyn Dŵr ym 1401. Ymddengys mai ychydig iawn o waith cynnal a chadw a fu tan i'r castell gael ei atgyweirio gan gefnogwyr y brenin yn y Rhyfel Cartref. Wedi hynny, tynnwyd y to. Roedd yn gastell atyniadol i artistiaid yn y ddeunawfed ganrif, a chafodd ei beintio gan J.M.W. Turner. Pan ddenwyd ymwelwyr i Gonwy gan bont grog Thomas Telford, a gan y rheilffordd yn ddiweddarach, bu mwy o ddiddordeb yn y castell. Rhoddwyd y castell i'r fwrdeistref ym 1865 ac erbyn hyn mae yng ngofal Cadw, ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir rhaglen barhaus o ymchwil a chynnal a chadw.

Edrych ar yr adeiladau


Y tu allan

- Edrychwch ar leoliad y castell a'i berthynas â'r afon a muriau'r dref.
- A oes tystiolaeth mai mewn un cyfnod yr adeiladwyd y castell?
- Edrychwch am rannau o wyngalch, sy'n dangos i'r castell gael ei beintio'n wyn.
- Tyllau pytlog: mae'r tyllau crynion hyn, sydd i'w gweld ym muriau'r tŵr, yn dangos lle roedd y sgaffaldiau.
- Mae tyllau sgwâr o dan y murfylchau yn dystiolaeth o *hourd*, neu lwyfan pren.
- Mae agennau saethu ar uchder gwahanol bob yn ail yn gwella amddiffyniad.
- Sylwch ar y tyredau ar y pedwar tŵr dwyreiniol.

Cadw



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Y porth allanol a'r rhagfur gorllewinol

- Mae'r fynedfa bresennol yn fodern. Mynedfa ar hyd esgynfa i'r dde oedd yo'n wreiddiol.
- Sylwch ar y rhigolau ar gyfer porthcwlis a'r tyllau colynnu ar gyfer pont godi yn y porth allanol.
- Ceir tyllau tinbren ar gyfer drysau ym mhen draw cyntedd y porth.
- Mae agennau saethu a rhyngdyllau mawrion yn amddiffyn y porth i'r ward allanol.

Y ward allanol

- Dyma lle roedd y gwarchodlu'n byw, ac ym 1284 roedd hyn yn cynnwys pymtheg croesfwäwr a phymtheg gwas arall.
- Sylwch ar dystiolaeth o borthcwlis a thinbren yn y porth.
- Gwnaed y gegin, y stabl a'r warchodfa o bren, ac fe'u codwyd yn erbyn mur y gogledd. Sylwch ar y sylfeini a'r corbelau carreg yn y mur i gynnal y to.

Ardal y neuadd fawr


- Roedd y rhain yn ystafelloedd mawreddog; sylwch ar y ffenestri a'r fframiau drysau cywrain.
- Mae tri lle tân yn yr ardal hon.
- Adeiladwyd y bwâu carreg i gynnal y to plwm newydd ym 1346.

Y tyrau

- Roedd tyrau'r gogledd-orllewin a'r de-orllewin yn gartref i'r cwnstabl a'i deulu.
- Sylwch ar y lle tân a'r geudai.
- Defnyddiwyd y llawr isaf fel storfa.
- Yn nhŵr y castell roedd cell ar y llawr isaf.

Y ward fewnol

- 'Castell o fewn castell' oedd hwn, yn cynnwys ystafelloedd y brenin a'r frenhines.
- Roedd modd mynd iddo o'r castell ar hyd pont godi.
- Gellid mynd yno o'r rhagfur dwyreiniol heb basio drwy'r ward allanol.
- Ceir tyredau ar y tyrau.
- Mae rhai ffenestri cywrain.
- Mae rhywfaint o'r plastr gwreiddiol ar y muriau o hyd.
- Y capel yw'r capel sydd wedi goroesi orau yn y cestyll Edwardaidd.



Muriau'r dref


- Rhannodd Edward I diriogaeth Cymru'n siroedd yn y dull Seisnig, a chynlluniwyd Conwy i fod yn dref sirol.
- Mae muriau'r dref yn parhau i fod yn gylch cyfan, er bod agoriadau newydd wedi'u gwneud ar gyfer ffyrdd a'r rheilffordd.
- Mae'r muriau yn 1,400 llath (1.3km) o hyd, a cheir un ar hugain o dyrau sydd â bwlc o tua 50 llath (46m) rhyngddynt.
- Ceir tri phorth gydag amddiffyniad, a rhes o ddeuddeg geudy.
- Mae golygfa dda o'r mur a'r castell o Dŵr 13.

Rhai syniadau ar gyfer gweithgareddau ar y safle

Y castell fel amddiffynfa

- O'r tu allan, beth yw nodwedd fwyaf trawiadol y castell? Ydy pawb yn cytuno?
- Pa rwystrau sy'n wynebu ymosodwyr sy'n ceisio cyrraedd y ward fewnol? Pa rannau o'r daith sydd fwyaf peryglus?
- Ble fydddech chi'n gosod pymtheg bwäwr y gwarchodlu er mwyn amddiffyn y castell?
- Ym 1401, cipiodd dilynwyr Owain Glyn Dŵr y castell trwy 'frad'. Sut allen nhw fod wedi sleifio i mewn? Cynlluniwch daith bosibl i siambr y brenin.

Mae tywyslyfr newydd **Castell Conwy** yn cynnwys gwybodaeth am hanes Conwy a lluniau sy'n ail-greu'r adeiladau. Mae ar gael am ostyngiad o 25% at ddibenion addysgol o Adran Werthu Cadw. Ffôn 01443 336 092/094
Epost cadw.sales@wales.gsi.gov.uk



Trefniadau'r cartref

- Disgrifiwch neu gwnewch fraslun o'r capel. Sut mae'n wahanol i'r ystafelloedd eraill?
- A oedd y castell yn lle iach i fyw ynndo? A oedd yr un peth i'r brenin, y cwnstabl, y milwyr a'r gweision?
- Mae rhannau o'r ffenestri addurnol wedi goroesi. A allwch chi wneud braslun o un ohonynt fel y byddai wedi edrych pan oedd yn gyflawn?

Hamdden a thwristiaeth

- Ers 1966 mae'r castell wedi cael to newydd a llawr newydd. A ddylid gwneud mwy o waith ar y castell?
- Cynlluniwch ganllaw ar gyfer ymwelydd sydd ond yn gallu treulio awr yng Nghonwy. Penderfynwch ar y pethau pwysigaf i'w gweld.

Eich ymweliad

Gellir cyrraedd mur tref a Chastell Conwy ar hyd ffordd arfordir yr A55.

Cyfleusterau

Ceir lle i barcio, tai bach, tywyslyfr, arddangosfa ar y safle, siop arnhegion, canolfan groeso ar y safle.

Mynediad

Mynediad da i'r siop, y ddesg dalu a'r ardal arddangos. Mae llwybr ar oledf a grisiau oddi yno i fynedfa'r castell ac mae nifer o risiau a lefelau ar y llawr. Ceir arddangosfa y tu mewn i un o'r tyrau a cheir paneli gwybodaeth ar y safle. Darperir meinciau.

Mae'r maes parcio talu ac arddangos sydd y drws nesaf i'r castell yn rhad ac am ddim i ddeiliaid bathodyn anabl. Mae pum lle parcio ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn (dau le llydan a thri o faint arferol).

Mae'r tai bach cyhoeddus y drws nesaf i'r siop yn cynnwys un tŷ bach allwedd radar.

Mae mynediad am ddim i ymwelwyr anabl a'u cynorthwy-ydd yn ein holl henebion. Noder na chaniateir cŵn ar safleoedd Cadw am resymau iechyd, ond croesewir cŵn tywys a chŵn clywed ar gyfer pobl fyddar.

Mae gwybodaeth, cymorth a chynghor pellach ynghylch ymweld â'r safle ar gael gan geidwad yr heneb, a all hefyd drefnu ymweliad cynllunio rhad ac am ddim i arweinwyr grwpiau.

Y Ceidwad, Castell Conwy, Conwy, LL32 8AY

Ffôn 01492 592358 Ebst conwy.castle@cadw.co.uk

Prynwch dywyslyfr newydd Castell Conwy am ostyngiad o 25% at ddibenion addysgol o siop Castell Conwy neu Adran Werthu Cadw ym mhrif gyfeiriad Cadw.
Ffôn 01443 336092/094 Ebst cadw.sales@wales.gsi.gov.uk

Cadw
 Plas Carew
 Uned 5/7 Cefn Coed
 Parc Nantgarw
 Caerdydd CF15 7QQ
 Ffôn 01443 33 6000
 Ffacs 01443 33 6001
 Ebst cadw.education@wales.gsi.gov.uk
 Gwefan www.cadw.wales.gov.uk



Llywodraeth Cynulliad Cymru
 Welsh Assembly Government